**Yr amserlen ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) arfaethedig**

Ar 7 Gorffennaf 2008, cyflwynwyd Mesur arfaethedig llywodraeth, ‘Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)’, yn y Cynulliad.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, mae’r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gyfeirio’r ystyriaeth ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig at bwyllgor.

Ar 9 Gorffennaf 2008, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, penderfynodd y Cynulliad sefydlu Pwyllgor i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad. Bydd y Pwyllgor yn dod i ben os bydd y Mesur arfaethedig yn pasio, yn methu neu’n cael ei dynnu yn ôl, neu ops bydd pwyllgor newydd yn cael ei sefydlu i ystyried trafodaethau Cyfnod 2 o dan Reol Sefydlog 23.31(ii).

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae’r Pwyllgor Busnes wedi sefydlu amserlen fel y gall y Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac y mae wedi cytuno y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i’r Cynulliad erbyn 7 Tachwedd 2008.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Gorffennaf 2008**